

Dathlu'r

Frân Goesgoch

(*Pyrrhocorax pyrrhocorax*)



ar

Arfordir Ceredigion

Mae'r aelod arbennig yma o deulu'r frân yn hawdd ei adnabod wrth ei goesau coch, ei big coch, ei blu du sgleiniog a phlu ei adenydd, sydd wedi'u rhannu'n 'fysedd'.



Yn aml mae'r frân goesgoch i'w chlywed cyn y gellir ei gweld, wrth iddi gyhoeddi'i phresenoldeb gyda'i chri 'tsi-ow' unigryw a chlr. Mae'r enw Cymraeg 'brân goesgoch' yn disgrifio'r aderyn i'r dim.

Mae'r frân goesgoch i'w gweld ar hyd arfordiroedd creigiog gyda glaswelltir byr, lle mae'n hela am bryfaid a larfae gyda'i phig hir. Yn y gaeaf, pan fydd y ddaear wedi rhewi, mae hadau grawn ar gaeau sofr yn ffynhonnell fwyd bwysig iddi.

Mae brain coesgoch yn paru'n ffyddlon â'i gilydd trwy'r flwyddyn ac maent i'w gweld yn hedfan dros eu tiriogaeth; yn plymio drwy'r awyr yn bwerus, gan alw wrth iddynt ddisgyn. Yn aml hefyd gwelir parau'n glanhau a phincio'i gilydd.

Erbyn hyn mae'r frân goesgoch yn byw ar ymylon gorllewinol Ynysoedd Prydain yn unig; felly er bod yr aderyn difyr hwn i'w weld yn aml yn lleol, mae'n brin yn genedlaethol.



Mae brain coesgoch yn clwydo fel cymuned y tu allan i'r tymor magu, ac yn aml, bydd adar nad ydynt yn magu yn gwneud hynny drwy'r flwyddyn. Mae heidiau'n cynnwys parau o adar sy'n magu ac adar nad ydynt yn magu. Yn Ebrill a Mai mae'r heidiau yn bennaf yn cynnwys adar nad ydynt yn magu.

Mae hyd oes y frân goesgoch oddeutu deng mlynedd, er bod ambell i aderyn hŷn wedi'i gofnodi. Roedd yr un hynaf y gwyddys amdano yn ugain oed.

Blwyddyn y Frân Goesgoch Mawrth

Gwelir parau'n adeiladu nyth neu'n adnewyddu nyth y llynedd; gwneir y nyth o frigau sych, gwreiddiau a mwsogl, wedi'i leinio â gwlân dafad a had ysgall. Adeiladir y nythod mewn cilfachau mewn ogofau a holltau yn wyneb y graig.

Ebrill

Mae'r fenyw'n dodwy 3-5 o wyau ac yn eistedd arnynt am 21 o ddiwrnodau. Mae'r gwryw'n bwydo'r fenyw yn y nyth. Mae'r fenyw'n gwarchod y cywion yn ddi-dor am y bythefnos gyntaf.

Mai

Mae'r ddau oedolyn wrthi'n brysur yn hedfan yma ac acw'n chwilio am fwyd cyn dychwelyd i'w gyfogi ar gyfer eu cywion newynog. Mae morgrug yn ffefryn arbennig. Bydd parau sy'n nythu'n ymuno â heidiau sy'n bwydo yn y dydd i chwilio am fwyd y tu allan i'w tiriogaeth gyfagos.



Mehefin cynnar

Mae'r cywion yn ymddangos am y tro cyntaf y tu allan i'r nyth, ac yn treulio wythnos neu ragor yn 'dringo'r creigiau' i fagu hyder i hedfan.

Gorffennaf-Awst

Mae'r cywion yn hedfan pan fyddant yn 6-7 wythnos oed ac maent i'w gweld ger safle'r nyth yn ymarfer eu techneg. Gallant fwydo'u hunain yn 9-10 wythnos oed, ond maent yn aros gyda'u rhieni am wythnos neu ddwy arall cyn dod yn annibynnol.


Hydref

Mae'r cywion, sy'n annibynnol erbyn hyn, yn ymuno â haid o adar ifanc, ac yn treulio'u hamser yn chwilo am fwyd ar hyd yr arfordir. Ni fyddant yn gadael yr haid nes eu bod yn barod i fagu pan fyddant yn ddwy i bedair oed.

Mae'r chwe mis cyntaf ar ôl gadael y nyth yn amser peryglus, ac mae nifer o adar ifanc yn methu â goroesi eu gaeaf cyntaf.

Bygythiadau

Colli cynefin yw'r bygythiad mwyaf i boblogaethau'r frân goesgoch. Mae angen rheoli'r tir mewn ffordd briodol i ddarparu cynefin addas i'r frân goesgoch chwilio am fwyd ynddo.



Allwch chi helpu?

**Os welwch chi'r frân goesgoch yn unrhyw le
ar hyd arfordir**

**Ceredigion, rhowch wybod am yr hyn
a welsoch chi i'r**

**Swyddog Ardal Forol Warchodedig
drwy wefan ACA Bae Ceredigion**

www.cardiganbaysac.org.uk



Lluniau: Janet Baxter

